

Niwrowahaniaeth

Chwalu'r myth!

Er mwyn cefnogi rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n cyflwyno gyda anawsterau, gan gynnwys datblygu eu sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol, mae'r Tîm Cynhwysiant Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cynnal sesiynau 'Amser i Siarad' ar draws y sir:

Dyddiad	Amser	Lleoliad
14/10/26	09:00yb-14:30yp	Heol Llangyfelach, Brynhyfryd, Abertawe SA5 9EA
15/10/26	09:00yb-14:30yp	Heol Pontarddulais, Gorseinon, Abertawe SA4 4FE
21/10/26	09:00yb-14:30yp	Rhodfa Powys, Townhill, Abertawe SA1 6PH
22/10/26	09:00yb-14:30yp	Heol Llangyfelach, Brynhyfryd, Abertawe SA5 9EA

Bydd y sesiynau hyn yn rhoi cyfle i rieni/gofalwyr gyfarfod â chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cynhwysiant, gyda'r bwriad o adeiladu partneriaeth rhieni, ac i alluogi trafodaeth ar unrhyw faterion y gallent fod yn eu hwynebu.

Byddem yn croesawu pob rhiant/gofalwr a hoffai gael cymorth. Drwy gydweithio â rhieni/gofalwyr, byddwn yn gallu meddwl am y ffordd orau o gefnogi'r teulu. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol na fyddai'n rhaid i'r plentyn neu'r person ifanc gael diagnosis o ASD/ADHD na bod ar y llwybr Atgyfeirio Niwroddatblygiadol er mwyn i rieni/gofalwyr ymuno.

Gweler taflenni ynghlwm i chi rannu/dosbarthu i'ch rhieni. Byddai'n ddefnyddiol pe gellid arddangos y daflen yn neuadd fynediad eich ysgol, ar wefan yr ysgol a'i chylchredeg i bob rhiant trwy'ch dulliau cyfathrebu arferol.



Mae'n hanfodol bod rhieni'n cysylltu â'r cyfeiriad e-bost ar y taflenni sydd ynghlwm er mwyn trefnu apwyntiad yn y sesiwn 'Amser i Siarad'.

Amser i Siarad

Ydych chi'n rhiant/gofalwr plant sy'n mynychu'r ysgol ac yn byw yn Abertawe? Oes gennych chi bryderon am ddatblygiad sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio eich plentyn?

Mae Tîm Cynhwysiant Anghenion Dysgu Ychwanegol Awdurdod Lleol Abertawe yn cynnig cyfle i chi gwrdd ag aelodau staff, gan gynnwys athro arbenigol, i drafod unrhyw bryderon sydd gennych ac i feddwl gyda'ch gilydd am ffyrdd i'ch cefnogi chi a'ch teulu.

Dewch i gael sgwrs gyda ni!

Dyddiad	Amser	Lleoliad
14/10/2026	09:00yb-14:30yp	Heol Llangyfelach, Brynhyfryd, Abertawe SA5 9EA
15/10/2026	09:00yb-14:30yp	Heol Pontarddulais, Gorseinon, Abertawe SA4 4FE
21/10/2026	09:00yb-14:30yp	Rhodfa Powys, Townhill, Abertawe SA1 6PH
22/10/2026	09:00yb-14:30yp	Heol Llangyfelach, Brynhyfryd, Abertawe SA5 9EA

Os hoffech drefnu apwyntiad (tua 30 munud), e-bostiwch:

alnitbusinesssupport@swansea.gov.uk

gyda'ch dyddiad / amser dewisol, enw/dyddiad geni ac ysgol eich plentyn, a throsolwg byr o anghenion eich plentyn.

